

**UCU**

University and College Union  
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

# YMDDEOLIAD DIFLAS?



**URDDAS YN Y GWAITH**

**URDDAS AR ÔL YMDDEOL**

**CEFNOGWCH Y STREICIAU**

<https://www.ucu.org.uk/hedisputes>

## Pam rydym yn streicio?

Staff prifysgolion ac aelodau o'r Undeb Prifysgolion a Cholegau ydym ni, ac rydym yn streicio er mwyn diogelu ein pensiwn gwarantedig.

Rydym yn galw ar ein cyflogwyr i weithio gyda ni er mwyn osgoi newidiadau i fuddiannau a chynnydd mewn cyfraniadau aelodau yn y dyfodol, ac yn galw ar Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion i gyhoeddi prisiad newydd seiliedig ar dystiolaeth o'r cynllun.

## Ydych chi'n credu mewn bywyd ar ôl gwaith

Ers 2011, mae pensiwn USS staff prifysgolion wedi cael ei dorri £240,000. Nid rhodd gan ein cyflogwyr yw pensiynau: mae staff prifysgolion wedi ennill bob ceiniog. Yn y cylch diweddaraf o'r anghydfod niweidiol hwn, mae'r cyflogwyr yn bwriadu gwneud toriadau pellach – sy'n gwneud cyfanswm o 35% – i pensiwn gwarantedig y staff.

Cyflwynodd UCU wrthgynigion, ond mae'r cyflogwyr yn gwrthod eu hystyried. Yn ogystal â'r ffaith bod cyflog staff wedi'i dorri bron 20% mewn termau real ers 2009, nid yn unig yn y gwaith rydym yn colli urddas ond ar ôl ymddeol hefyd.

## Streicio yw'r dewis olaf bob tro

Yn y gwaith y mae aelodau UCU am fod, nid ar streic. Mae 2020 a 2021 wedi bod yn ddigon anodd i fyfyrwyr a staff. Wrth i aelodau UCU wynebu llwythi gwaith cynyddol, cyflog digyfnewid a risg barhaus COVID-19, mae cyflogwyr wedi treulio'r amser hwn yn cynllunio toriadau i'n pensiwn sy'n bygwth dichonoldeb cynllun pensiwn USS, gyda mwy a mwy o staff yn debygol o adael USS.

Mae aelodau UCU yn parhau i ofyn i'n cyflogwyr ac arweinwyr ein prifysgolion weithio gyda ni, rhoi terfyn ar y streiciau ac osgoi aflonyddu ar raddfa eang i fyfyrwyr, staff, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

## Gellir datrys yr anghydfod

Nid yw'n rhy hwyr i gyflogwyr ollwng eu cynigion a cheisio dod o hyd i ateb. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.ucu.org.uk/hedisputes>

## Cefnogwch ein galwad i weithredu

Gofynnwn i chi sefyll gyda ni ac amddiffyn hawl staff prifysgolion i gael ymddeoliad diogel. Gallwch wneud y canlynol:

- dosbarthu ein deunyddiau: <https://www.ucu.org.uk/hedisputes>
- mynd i linellau piced i ddangos eich cefnogaeth
- trydar eich cefnogaeth gan ddefnyddio'r hashnod:  
#UnOhonomPobUnOhonom (#OneOfUsAllOfUs)
- anfon e-bost at is-ganghellor y brifysgol i ofyn am drafodaethau o'r newydd
- llofnodi deiseb UCM (NUS): <https://email-nus.org.uk/p/5BGA-9DB/strike-letter>
- cefnogi staff sydd ar streic a rhoi i gronfa ymgyrchu UCU yn:  
<https://www.ucu.org.uk/fightingfund>